Biosffer Dyfi Biosphere: Ychwanegu gwerth ac osgoi dyblygu. Atodiad P: 16/1/2008

Ni fydd y fenter hon yn un gwerth chweil oni bai iddi ddod â manteision ychwanegol ac osgoi dyblygu ymdrech. Dyma sylwadau ar ryngweithiad tebygol Biosffer Dyfi â mentrau eraill, a drefnwyd yn ôl eu cyrhaeddiad daearyddol:

A) Yn ymdrin â'r cyfan neu â'r rhan fwyaf o Ardal Bontio arfaethedig Biosffer Dyfi

1. Ecodyfi

Dyma fenter gymdeithasol annibynnol sy'n gweithio tuag at adfywiad cymunedol cynaliadwy'r dyffryn. Ni dderbynia ariannu craidd ac mae'n dibynnu'n bennaf ar incwm prosiectau. Mae gan ecodyfi raglen waith amrywiol, y rhan helaeth wedi'i seilio ar wneud yr economi leol yn fwy gwyrdd a chynorthwyo'r gymuned i fod yn fwy cynaliadwy. Mae Ecodyfi ar gael i fod yn un o beirianweithiau gweithredu'r Biosffer e.e. fel cyflogwr, ysgrifenyddiaeth neu i reoli prosiectau penodol.

2. Ardal Adnewyddu Tai

Mae Cymunedau'n Gyntaf Bro Ddyfi / Fforwm Gymunedol Lleol Machynlleth a'r Cylch yn archwilio i'r cyfle i sefydlu Ardal Adnewyddu Tai ar gyfer y dyffryn cyfan neu ran ohono. Rheolir y rhain gan awdurdodau lleol wedi derbyn cytundeb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n darparu arian cyfalaf i gefnogi themâu a ddewisiwyd megis ansawdd tai a thlodi tanwydd. Os yn llwyddiannus, gall hwn ddod yn un o'r prif brosiectau mewn cynllun gweithredu i Biosffer Dyfi.

3. Ardaloedd Twf Twristiaeth – ac olynwyr iddynt

Mae ardaloedd Powys a Gwynedd o'r Biosffer yn creu Ardal Twf Twristiaeth Dyfi, tra bo ardal Ceredigion o'r Biosffer yn rhan o Ardaloedd Twf Twristiaeth y sir. Mae twristiaeth mwy cynaliadwy yn ffactor bwysig yn y ddwy ran o'r Biosffer. Mae gweithgareddau olynol gan bartneriaid Ardal Twf Twristiaeth Dyfi wedi'u canolbwyntio ar farchnata, gan ddefnyddio brand newydd LyfiDyfi. Mae'r partneriaid hyn yn ddeiliaid diddordeb allweddol ym Miosffer Dyfi a byddant yn sicrhau y bydd gweithredoedd yn cael eu cydlynu.

4. TraCC, y consortiwm trafnidiaeth rhanbarthol

Mae TraCC (Trafnidiaeth Canolbarth Cymru) yn dod â chyrff o arbenigwyr mewn cludiant ynghyd a byddant eu cyfraniad i waith Cyd-bwyllgor Ymgynghorol (CBY) Biosffer Dyfi'n un sylweddol. Bydd y swyddogion hyn o gymorth i adeiladu'r adran berthnasol o gynllun gweithredu Biosffer trwy gysylltiad â mentrau rhanbarthol.

B) Yn ymdrin â 'Chylch dylanwad Machynlleth' / Cynllun Gofodol Cymru 'Ardal anheddu' (Taliesin – Llanbrynmair – Llanymawddwy – Pennal)

1. Cynllun Datblygu Economaidd Dyffryn Dyfi

Ymgais oedd hon i gynyddu cydlyniad mentrau sy'n berthnasol i adfywio economaidd. Fe'i dechreuwyd gan Adran Mentrau, Arloesi a Rhwydweithiau Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Sir Powys, a gytunodd wedi hynny i arwain. Ei bedwar thema oedd Datblygiad Busnes, Addysg Gydol Oes, Teithio a Thwristiaeth. Roedd Ceredigion a Gwynedd yn rhannol gysylltiedig. Awgrymwyd fod strwythur y Biosffer yn ymgymryd â'r gwaith ac yn datblygu elfennau dichonadwy o'r Cynllun.

2. Cynllun Braenaru Daearyddol

Dechreuwyd y broses hon gan ELWa ac fe'i rheolir ar y cyd gan Gyngor Sir Powys ac Adran Addysg ac Addysg Gydol Oes Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n ceisio sicrhau fod llwybrau dysgu yn economaidd gynialadwy a chydlynol a bod y gymuned ehangach yn ymglymedig. Mae dyfodol darpariaeth chweched dosbarth yn Ysgol Bro Ddyfi yn brif ganolbwynt ac mae "campws cymunedol" yn cael ei gynllunio. I ddechrau, mae'r

Deleganolfan, Hyfforddiant Powys a swyddfeydd lleol Cyngor Sir Powys i gyd yn cael eu hadleoli i adeilad newydd sy'n cael ei adeiladu i safonau ecolegol PassivHaus. Awgrymir fod unrhyw Fforwm Addysg Gydol Oes yn cael ei seilio o gwmpas y strwythur trefn lywodraethol newydd a gynigiwyd gan y Cynllun Braenaru, er ei bod yn bosibl y bydd angen ei atgyfnerthu at ddibenion y Biosffer o safbwynt Ceredigion a Gwynedd.

3. CAMAD (Gweithredu Cymunedol Machynlleth a'r Cylch)

Corff gwirfoddol yw CAMAD sy'n darparu nifer o wasanaethau cymunedol, yn cynnwys Bwrdd Gwirfoddoli, Pryd ar glud, Cynllun Cerdyn Tacsi, Clybiau Cinio a Chlwb Darby & Joan. Ni ragwelir unrhyw ddyblygiad.

4. Strategaeth Anheddu ar gyfer ardal Machynlleth o dan Gynllun Gofodol Cymru

Nid ydyw ar gael hyd yma, ond mae'r weledigaeth ar gyfer Canolbarth Cymru yn cyd-fynd yn dda â gweledigaeth y Biosffer: "Amodau byw a gweithio o ansawdd uchel mewn aneddiadau llai ac mewn amgylchedd godidog, sy'n darparu modelau datblygu cynaliadwy gwledig dynamig, a chan symud pob sector i weithgareddau gwerth ychwanegol uwch". Awgrymir y dylai'r Strategaeth gael ei weithredu trwy strwythurau'r Biosffer.

C) <u>Yn ymdrin ag ardal Powys yn unig.</u>

1. Cymunedau'n Gyntaf Bro Ddyfi (CG) a Fforwm Cymunedol Lleol Machynlleth a'r Cylch (FfGLl)

Mae'r mentrau yma'n cydweithio ac wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu Lleol ar y cyd ("Rhoi Bro Ddyfi'n Gyntaf") sydd â saith Thema, yn cynnwys gweithredoedd ar gyfer y gymuned a phartneriaid sector gyhoeddus. Awgrymir y dylai aelodau a staff Cymunedau'n Gyntaf a'r Fforwm Gymunedol Lleol a'u his grwpiau (Tai, Economi a Gwaith a Fforwm Cludiant Dyfi) gyfrannu tuag at y Fforymau a welir yn y tabl, a chanolbwyntio ar gyfranogiad cymunedol. Yn ychwanegol, bydd gan Gymunedau'n Gyntaf un sedd ar Gyd-bwyllgor Ymgynghori arfaethedig Biosffer Dyfi.

2. Anghydraddoldebau mewn Iechyd (AMI) a Mentro Allan

Mae Anghydraddoldebau mewn Iechyd yn anelu at leihau'r perygl o glefyd y galon, yn gweithredu cynllun Cerdded Llwybr Iechyd ac yn dod i ben ym Mawrth 2008. Mae Mentro Allan yn anelu at gael pobl yn actif yn yr amgylchedd naturiol lleol ac fe fydd yn parhau fel prosiect tan 2011. Gall gael ei fabwysiadu yn rhan o gynllun gweithredu Biosffer Dyfi.

3. Cynllun Gweithredu Iaith

Mae gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg raglen yn ardal Cymunedau'n Gyntaf. Awgrymir y dylai gydweithio â'r Mentrau Iaith yng Ngheredigion a Gwynedd ar lefel Biosffer Dyfi.

D) <u>Yn ymdrin ag ardaloedd daearyddol penodol eraill</u>

1. Prosiect Pumlumon

Prosiect bartneriaeth cael ei reoli gan Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn yw hwn. Anela at newid arferion rheoli tir dros ran helaeth o gefn gwlad, yn cynnwys rhan o Fiosffer Dyfi. Ni ellir gwneud hyn ond trwy gytundeb, ac ymglymiad gweithredol y tirfeddianwyr a'r rheolwyr tir presennol. Bydd y bobl sy'n gyfrifol am y ddwy fenter yn gweithio gyda'i gilydd ac fe ymddengys y prosiectau priodol yn y ddau gynllun gweithredu.

2. Menter Aberystwyth

Partneriaeth adfywio i Aberystwyth a'r cylch yw hon. Mae ganddi gysylltiadau agos â'r Brifysgol a'r Llyfrgell Genedlaethol, Cyngor y Dref a'r Clwb Busnes, ynghyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n cynorthwyo pobl sy'n byw yn yr ardal i weithredu'n uniongyrchol ynghylch materion sy'n effeithio ar eu cymdeithas, yn hytrach na derbyn atebion sydd wedi'u gorfodi arnynt, felly mae ar gael fel peirianwaith gweithredu i Fiosffer Dyfi.

3. Grŵp Adfywio Mawddwy, Partneriaeth Aberdyfi, Gweithgor Corris, Institiwt Corris ayb.

Bydd angen i weithwyr cymunedol ar lefel pentref neu gymuned fod yn rhan o lunio'r cynllun gweithredu a'i gyflwyno gan mai nhw yw'r rhai "agosaf".

E) Strategaethau ehangach sy'n berthnasol i strwythurau'r Biosffer

1. Strategaethau Cymunedol

Mae gan y tri themâu lluosog. Mae Gwynedd ar y Cyd yn enwi Amgylchedd o Ansawdd yn un o'i ddwy flaenoriaeth ac mae Newid yn yr Hinsawdd yn cael cryn sylw.

2. Strategaethau Lleol ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig

Eto, mae'r gweledigaethau cyffredinol yn gydnaws. Enwa Gwynedd Gynnyrch Lleol, Sector Amgylcheddol, Ynni Adnewyddol a Diwydiannau Creadigol fel pedair o'i bum thema.

3. Cronfeydd Strwythurol y Gymuned Ewropeaidd

Gelwir Thema 3 o Flaenoriaeth 4 o gyllid Cydgyfeiriant yn Amgylchedd ar gyfer Twf. Gelwir Blaenoriaeth ddrafft 3 o gyllid Cydgyfeiriant yn Mynd i'r Afael â'r Newid yn yr Hinsawdd.

4. Cynllun Gofodol Cymru

Y Strategaeth Anheddu (uchod) yw elfen allweddol y Cynllun Gofodol i'r Biosffer.